# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 217(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Darparu Cymru Carbon Isel

(45 munud)

## 5 Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019

(15 munud)

**NDM7078** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2019 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 2019.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl ar Goridor yr M4 o amgylch Casnewydd

(90 munud)

**NDM7097** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad yr Arolygydd Cyhoeddus a'r llythyr o benderfyniad a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ddydd Mawrth 4 Mehefin, gan gynnwys datganiad llafar yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, ynghylch prosiect coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

2. Yn nodi'r camau nesaf a amlinellwyd gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gan gynnwys sefydlu Comisiwn o arbenigwyr o dan arweiniad yr Arglwydd Terry Burns.

3. Yn cydnabod y problemau sylweddol o ran tagfeydd ar rwydwaith yr M4 ger Twnelau Brynglas a'u heffaith ar Gasnewydd a'r economi ehangach

4. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac ariannu atebion cynaliadwy ac effeithiol i broblemau tagfeydd fel rhan o system drafnidiaeth integredig, aml-ddull a charbon isel.

Adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus

Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd: llythyr penderfynu

Datganiad Llafar: Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Datganiad Ysgrifenedig: M4 Casnewydd: Camau Nesaf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chadw at ei haddewid i ddarparu ffordd liniaru'r M4.

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad yr Arolygydd Cyhoeddus Annibynnol cyn 4 Mehefin 2019.

**Gwelliant 3** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu ymhellach at fethiant un Llywodraeth Lafur ar ôl y llall yng Nghymru i ddatrys y tagfeydd ar yr M4 hyd yn hyn.

**Gwelliant 4** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i dderbyn argymhelliad yr arolygydd cyhoeddus annibynnol ac adeiladu ffordd liniaru'r M4.

**Gwelliant 5** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig;

Yn cydnabod bod tagfeydd o amgylch Casnewydd wedi bod yn llesteirio economi Cymru dros y ddau ddegawd diwethaf ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw fesurau lleddfu, yn absenoldeb ffordd liniaru, yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Gwelliant 6** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynnig newydd yn rhan o becyn buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer Cymru gyfan.

## 7 Cyfnod pleidleisio

(5 munud)

## 8 Dadl ar Gyfnod 3 y Bil Deddfwriaeth (Cymru)

(60 munud)

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Diffiniadau yn Rhan 1 o'r Bil**

13, 14

**2. Rhaglen i wella hygyrchedd Cyfraith Cymru**

1

**3. Effaith darpariaethau Rhan 2 o'r Bil**

3, 4, 8, 9

**4. Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE**

5, 6, 7, 10, 11, 12

**Dogfennau Ategol**

Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau wedi'u didoli

Grwpio Gwelliannau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 26 Mehefin 2019